

DANGOSYDDION PERFFORMIAD AR GYFER ASESIAD CYFWELIAD CLEIENT SQE2

Sgiliau	Dangosyddion sy'n dangos cymhwysedd	Dangosyddion nad ydynt yn dangos cymhwysedd
<p>Gwrando ar y cleient a defnyddio cwestiynau'n effeithiol i alluogi'r cleient i ddweud wrth y cyfreithiwr beth sy'n bwysig iddo.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn dangos sgiliau gwranddo gweithredol ac yn ymgysylltu â'r cleient, er enghraifft trwy <ul style="list-style-type: none"> ○ wrando'n astud (gall defnyddio mynegiant yr wyneb/iaith y corff/tôn llais/dangos tystiolaeth o hyn) ○ osgoi torri ar draws y cleient ○ gwranddo heb farnu ○ osgoi gwneud rhagdybiaethau • Mae'r ymgeisydd yn gofyn cwestiynau priodol (e.e. cwestiynau sydd wedi'u cynllunio i dynnu wybodaeth berthnasol gan y cleient) • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio cyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig. Ystyr cwestiwn agored yw cwestiwn sy'n gwahodd y cleient i rannu gwybodaeth fanylach e.e. gallai fod yn gwestiwn sy'n dechrau gyda'r geiriau "Allwch chi ddweud wrthyf am..." Gallai cwestiynau caeedig fod yn gwestiynau lle mai 'ie' neu 'na' fyddai'r ymateb e.e. "Ydych chi'n berchen ar eich eiddo eich hun?") 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn ymddangos nad oes ganddo ddiddordeb (e.e. mynegiant wyneb/iaith y corff/tôn llais sy'n dangos diffyg ymgysylltiad â'r cleient) • Mae'n ymddangos nad yw sylw'r ymgeisydd ar y cleient, neu nad yw'n barod iawn i fynd i'r afael â phryderon y cleient (e.e. mae'n glynu'n rhy gaeth wrth ei agenda ei hun/mae'n rhy ddibynnol ar ei nodiadau/yn ailadrodd gwybodaeth mae'r cleient eisoes wedi'i rhoi/yn torri ar draws y cleient) • Nid yw cwestiynau'r ymgeisydd yn briodol nac yn berthnasol • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio cwestiynau caeedig yn unig neu nid yw'n defnyddio cwestiynau agored digonol/priodol, sy'n atal y cleient rhag esbonio'r hyn sy'n bwysig iddo

<p>Cyfathrebu ac egluro mewn ffordd sy'n addas i'r cleient ddeall.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith sy'n hawdd i'r cleient ei deall • Pan fo angen defnyddio iaith dechnegol na fyddai cleient yn ei deall, mae'r ymgeisydd yn esbonio'r termau cyfreithiol yn glir ac yn gryno (e.e. "cyfamod cyfyngiadol"; "hawddfraint gyfreithiol"; "amodoldeb oedran"; "band dim nil") 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae esboniadau'r ymgeisydd yn amleiriog, yn llawn iaith gyfreithiol, yn gymhleth, yn hirwyntog neu'n ddruslyd ac nid yw'r cleient yn eu deall • Mae'r ymgeisydd yn defnyddio iaith dechnegol pan fo angen, ond nid yw'n rhoi llawer o esboniad, os o gwbl, a/neu mae'r esboniadau a roddir yn amwys, hyd yn oed pan fydd y cleient yn holi am hyn
<p>Ymddwyn yn broffesiynol a thrin y cleient yn barchus ac yn gwrtais, gan gynnwys parchu amrywiaeth lle bo hynny'n berthnasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn cyflwyno newyddion anodd neu annymunol mewn modd clir a sensitif • Mae'r ymgeisydd yn trin y cleient gyda chwarteisi a pharch • Mae'r ymgeisydd yn ymddwyn yn gwrtais ac yn meithrin perthynas â'r cleient • O ran ei ymddygiad, mae'r ymgeisydd yn llwyddo i gael y cydbwysedd cywir rhwng pellter proffesiynol a dangos diddordeb mewn problem y cleient • Mae'r ymgeisydd yn cadw rheolaeth ar y cyfweliad (e.e. mae'r ymgeisydd yn drefnus; yn bwyllog, dan reolaeth ac yn effeithlon, ac nid yw'n ymddangos ei fod yn rhuthro) 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae ymddygiad yr ymgeisydd tuag at y cleient yn ansensitif drwyddi draw • O ran ei ymddygiad, mae'r ymgeisydd yn rhy gyfarwydd, yn ddiogel neu'n anffurfiol iawn e.e. mae'r ymgeisydd yn ddi-hid neu'n gwneud jôcs gyda'r cleient • Mae ymddygiad yr ymgeisydd yn anghwrtais; yn swta; yn ddiystyriol; yn amharchus; yn feirniadol; neu'n nawddoglyd • Mae'r ymgeisydd yn betrusgar neu mae'n brin o hyder drwyddi draw; mae'n ymddangos yn frysiog ac yn ffwndrus; nid yw'n rheoli'r cyfweliad

<p>Dangos ffocws ar y cleient yn ei agwedd tuag at y cleient a'r materion (h.y. dangos dealltwriaeth o'r broblem o safbwynt y cleient a'r hyn y mae'r cleient eisiau ei gyflawni, nid dim ond o safbwynt cyfreithiol).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn dangos dealltwriaeth o broblem y cleient o safbwynt y cleient (e.e. mae'r ymgeisydd yn mynd i'r afael â phroblem gyfreithiol y cleient, unrhyw ystyriaethau masnachol perthnasol a/neu amgylchiadau personol y cleient) • Mae'r ymgeisydd yn cydnabod ac yn ymateb i bryderon y cleient gyda diddordeb ac empathi 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw'r ymgeisydd yn gwerthfarwogi nac yn ymdrin â phroblem y cleient o safbwynt y cleient • Nid yw'r ymgeisydd yn ymateb i bryderon y cleient gyda diddordeb nac empathi • Mae'r ymgeisydd yn rhoi cyngor nad yw'n ystyried amcanion na phryderon y cleient
<p>Sefydlu a chynnal perthynas effeithiol â'r cleient er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn rheoli disgwyliadau/amgylchiadau'r cleient yn effeithiol, e.e. cydbwyso amcanion y cleient yn erbyn yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr amserlen; mae'r cleient yn teimlo'n hyderus bod y mater mewn dwylo da ac y bydd yn cael ei symud ymlaen 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ymgeisydd yn methu â rheoli disgwyliadau/amgylchiadau'r cleient a phrin y byddai hyder y cleient, os o gwbl, y bydd y mater yn cael ei symud yn ei flaen; ni fyddai'r cleient am ymddiried yn y cyfreithiwr i ddelio â'r mater